

Prifysgol Abertawe

Nodyn Cyfarwyddyd ar Reoli
Gwastraff WMGN07 – Gwydr

Awdur:	Fiona Wheatley
Cymeradwywyd gan:	Fiona Abbott
Dyddiad creu:	09/11/2018

Nodyn Cyfarwyddyd ar Reoli Gwastraff WMGN07	
Gwydr	
Lleoliad Cynhyrchu	Amrywiol
EWC	20-01-02
Math	Gwastraff a reolir nad yw'n beryglus
Dull gwaredu	Didoli i'w ailgylchu
Math o Fin/Fag	Biniau olwyn 240l allanol/sach glir

Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai busnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff gymhwyso'r hierarchaeth gwaredu gwastraff i'r holl ffrydiau er mwyn lleiafu maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu. Yn ymarferol, golyga hyn sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddidoli cyn ei waredu drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai mai dyma'r dewis olaf.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddidoli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr ar wahân i'w gilydd os oes angen annog ansawdd uchel deunyddiau sydd i'w hailgylchu.

Er bod hyn wedi'i ddsbarthu fel gwastraff nad yw'n beryglus, mae'n ofynnol yn gyfreithlon o dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i ddidoli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod yr holl wastraff wedi'i ddsbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus drwy'r ffrwd ar gyfer gwastraff dinesig cyffredinol yn anghywir arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r weithred o beidio â chydymffurfio.

Mae ailgylchu gwydr yn arbed oddeutu 50% o'r ynni y mae ei angen i gynhyrchu gwydr newydd. Mae pob tonnell o wydr sydd wedi'i ailgylchu'n lleihau gwastraff mwyngloddio oddeutu 230 o gilogramau, gan leihau dirywiad yr amgylchedd ac arbed ynni. Gellir toddi gwydr a'i ffurfio eto'n barhaus gydag ychydig neu ddim colled i'w ansawdd.

Bydd ailgylchu gwydr yn cynnwys eitemau ailgylchadwy megis;

- Potel ar gyfer diodydd
- Jariau bwyd gwydr
- Jariau coffi

Eitemau

Dylid rhoi gwastraff gwydr yn y biniau gwastraff cyffredinol penodol yn unig (fel arfer yn rhan o resi o bedwar/ddau fin gwastraff safonol y Brifysgol). Yn achos deunydd nad ydych yn gwybod beth yw'r hyn mae'n ei gynnwys a/neu ddeunydd sydd wedi'i halogi, yna e-bostiwch y Tîm Cynaliadwyedd yn (estates-waste@abertawe.ac.uk) i gael arweiniad a rhagor o fanylion.

Ni ddylid gwneud y canlynol o dan **unrhyw** amgylchiadau;

- (a) rhoi deunyddiau ailgylchadwy yn y bin gwastraff cyffredinol – mae'n atal deunyddiau gwerthfawr rhag cael ei adfer neu ei ailgylchu ac mae opsiynau ar gael
- (b) Rhaid golchi jariau bwyd lle bo modd i waredu gweddillion bwyd


Cyfarwyddiadau Gwaredu

Biniau Mewnol

Oherwydd swm bach y gwydr sy'n cael ei werthu a'i gynhyrchu ar y campws, ac oherwydd costau, lleolir biniau ailgylchu gwydr mewn ardaloedd allweddol yn unig megis wrth flaen Tŷ Fulton, lle gwerthir diodydd mewn poteli gwydr gan y gwerthwyr bwyd amrywiol.

Biniau Allanol

Mae gan y Brifysgol finiau olwynion gwyrdd 240l allanol yn yr holl gyfadeiladau gwastraff allanol ar draws Campws Parc Singleton a Champws y Bae, ynghyd â safleoedd cysylltiedig.



Ffigur 1 – bin olwynion gwydr 240l allanol Prifysgol Abertawe

Golchwch jariau bwyd a photeli diodydd lle bo modd cyn rhoi eitemau yn y biniau ailgylchu gwydr allanol. Ni ddylid rhoi eitemau megis jariau gwydr sy'n cynnwys sylweddau peryglus yn y bin ailgylchu gwydr allanol. Gweler dogfen **WMGN23 - Gwydr Labordai a Darnau Miniog o Wydr** i gael arweiniad ar waredu gwydr labordai.

Cost waredu

Mae'r gost o waredu'n cael ei hystyried fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/golegau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Fodd bynnag, gall unigolion leiafu'r gost a chyfrannu at nod y Brifysgol o gyflawni cyfradd o 63% o ran osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, neu droi gwastraff yn ynni, gan ddefnyddio'r ffrwd ar gyfer gwastraff cyffredinol yn ôl yr angen yn unig..

Labelu

Gweler templed

I gael rhagor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

